

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

168 - Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Medi 2020

Sifftio

Yn destun sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydynt
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 40
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1), 8C(1) a 23 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a pharagraffau 21 a 38 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

Cafodd Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/651) a Rheoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Gogledd Iwerddon) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/650), a ddaw i rym yn syth ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu, eu gwneud i gywiro diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir ar faeth a'r deddfwriaeth bresennol ddomestig ar faeth sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r UE.

Er mwyn adlewyrchu Protocol Gogledd Iwerddon, mae'r offeryn hwn yn diwygio OS 2019/651 ac yn dirymu OS 2019/650, fel na fydd rhai swyddogaethau sydd i'w trosglwyddo o Gomisiwn yr UE ac Awdurdod

Diogelwch Bwyd Ewrop ar ôl diwedd y Cyfnod Gweithredu yn cael eu trosglwyddo mwyach mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Mae'r offeryn hwn hefyd yn gwneud diwygiadau i gyfrif am newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE ar faeth sydd wedi dod i rym ers mis Mawrth 2019, a mân ddiwygiadau eraill.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 1 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn, heblaw bod y datganiad yn cynnwys y gwallau a ganlyn:

1. O dan y pennawd "Y gyfraith sy'n cael ei diwygio", yn y cyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (UE) 2019/651, nid yw'r geiriad "i sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol mewn cyfraith ddomestig ar ddiwedd y cyfnod pontio" yn disgrifio'r Rheoliad hwnnw a dylid ei hepgor; a
2. O dan y pennawd "Diben y diwygiadau", yn y paragraff cyntaf, mae enghraifft ychwanegol wallus o "2019" yn yr ail linell a chyfeiriad gwallus at "2020" yn y drydedd linell. Mae'r rheoliadau pwnc yn gymwys (yn rhannol) i Ogledd Iwerddon.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.